# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 21 Mawrth 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 128(v5)

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:**

**Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff Llywodraeth Cymru ddatganiad am oblygiadau adroddiad y Comisiwn Hapchwarae ar hapchwarae yng Nghymru?

Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): Yn sgil y cyhoeddiad heddiw gan Lywodraeth y DU i gynyddu cyflogau dros filiwn o staff y GIG yn Lloegr, a wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogau'r GIG yng Nghymru?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

(60 munud)

**NDM6696** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.83:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

Gosodwyd Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 2 Hydref 2017.

**Dogfennau ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – 9 Mawrth 2018
Ymateb y Pwyllgor Cyllid – 20 Mawrth 2018

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – 9 Mawrth 2018
Ymateb y Pwyllgor Cyllid – 20 Mawrth 2018

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Trafnidiaeth Gymunedol

(60 munud)

**NDM6666**

[Mark Isherwood (Gogledd Cymru)](#)
[Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)](#)
[Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn chwarae rhan hanfodol yn ein cymunedau, yn darparu trafnidiaeth ar gyfer pobl sy'n wynebu rhwystrau rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat, yn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol a chael mynediad i wasanaethau hanfodol, gan hefyd liniaru materion yn ymwneud ag unigrwydd ac arwahanrwydd.

2. Yn nodi'r pryder am ymgynghoriad presennol Adran Drafnidiaeth y DU ar drwyddedau trafnidiaeth cymunedol (adran 19/22) ac effaith bosibl hyn ar wasanaethau yng Nghymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio mewn partneriaeth â'r sector trafnidiaeth gymunedol a chyrff cyhoeddus i sicrhau bod y sector yn gallu parhau yn ei rôl unigryw gan ddarparu dewisiadau trafnidiaeth pwrpasol ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, er mwyn sicrhau mynediad i wasanaethau tra bod y broses ymgynghori yn mynd rhagddi;

b) datblygu cynlluniau wrth gefn i liniaru unrhyw effaith ar ddarpariaeth trafnidiaeth drwy wasanaethau bws mini a gyflenwir drwy drwyddedau adran 19 a 22;

c) cyhoeddi strategaeth glir sy'n cydnabod yr agwedd drawsbynciol ar ddarparu trafnidiaeth gymunedol ar draws adrannau Llywodraeth Cymru wrth gyflawni nodau strategol Llywodraeth Cymru;

d) darparu sefydlogrwydd sydd ei fawr angen ar gyfer y sector drwy symud tuag at gytundebau ariannu tair blynedd i alluogi sefydliadau i ddatblygu a bwrw ymlaen â chynlluniau, i sicrhau mwy o gynaliadwyedd a dull mwy strategol o ddarparu gwasanaethau; ac

e) sicrhau ymgysylltiad â phartneriaid perthnasol a rhanddeiliaid ledled Cymru i lywio ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, ac i sicrhau dealltwriaeth yn y sector o safbwynt Llywodraeth Cymru.

Ymgynghoriad Adran Drafnidiaeth y DU ar drwyddedau trafnidiaeth cymunedol (Saesneg yn unig)

**Cefnogwyr:**

Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)
Russell George (Sir Drefaldwyn)

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig - Gohiriwyd tan 18 Ebrill

(0 munud)

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(0 munud)

Ni chyflwynwyd cynnig.

## 10 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)

(120 munud)

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol**

9

**2. Dyletswydd i adrodd ar gydsyniad Gweinidogion Cymru (Adrannau 14 a 15)**

3

**3. Diddymu'r Ddeddf**

1, 2, 4, 5, 6, 8

**4. Gweithdrefnau – gwelliant technegol**

7

**Dogfennau ategol**

Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru), fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2

Memorandwm Esboniadol

Rhestr o Welliannau wedi'u didoli

Grwpio Gwelliannau

## 11 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)

(15 munud)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Ebrill 2018